OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 3114 (Cy.276)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Gwnaed - - - - 5 Rhagfyr 2008
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - 8 Rhagfyr 2008
Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

(3) Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn dod i rym ar 1 Medi 2009.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008(**3**).

Diwygio'r Prif Reoliadau

3. Mae'r Prif Reoliadau wedi'u diwygio'n unol â'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1998 p.30; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42 a 43 ac Atodlen 7.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adran (2)(a), (c) (j) neu (k), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149) (C.79)), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2006 (O.S. 2006/1660 (Cy.159) (C.56)), yn cyfeirio at hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2008/18 (Cy.7), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1324 (Cy.137).

4.—(1) Mae Rheoliad 3 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*"), yn lle "1 Chwefror 2008", rhodder "12 Ionawr 2009".

5.—(1) Mae Rheoliad 9 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (3)—

(a) yn lle "1 Medi 2008", rhodder "1 Medi 2009"; a

(b) yn lle "28 Chwefror 2008", ym mhob man y mae'n ymddangos, rhodder "1 Chwefror 2009".

6.—(1) Mae Rheoliad 10 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (17) rhodder—

"(17) Y dyddiad cau i wybodaeth ariannol ddod i law o ran blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009 yw 1 Chwefror 2009 neu, yn achos grantiau sy'n daladwy o dan reoliadau 20(7) a 22(6), 1 Chwefror 2010.".

7.—(1) Mae Rheoliad 22 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (3), rhodder—

"(3) Mae myfyriwr Athrofa Brifysgol Ewropeaidd yn cymhwyso i gael grant at gostau byw o 17,640 ewro o ran blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.".

8. Effaith yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn yw rhoi'r ffigurau yn nhrydedd golofn y tabl yn lle'r ffigurau yn ail golofn y tabl lle maent yn ymddangos yn narpariaethau'r Prif Reoliadau sydd wedi'u gosod yn y golofn gyntaf.

Diwygio Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

9. Mae Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008(**4**) wedi'u diwygio'n unol â rheoliad 10.

10. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 3, hepgorer y geiriau "a Benthyciadau".

Jane Hutt
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

5 Rhagfyr 2008

(**4**) O.S. 2008/1324 (Cy.137).